**Diweddariad ar Ymgynghoriad – Fframwaith Canlyniadau Rhaglen Cefnogi Pobl – Mawrth 2018**

Ers yr ymgynghoriad ynghylch y bwriad i ddatblygu ymhellach Fframwaith Canlyniadau Rhaglen Cefnogi Pobl a ddaeth i ben ym mis Awst 2017, mae amgylchiadau wedi newid sy'n golygu ein bod wedi gohirio ein bwriad i gyhoeddi fframwaith canlyniadau diwygiedig ar Gefnogi Pobl.

Yn rhan o'r gwaith ar Gyllido Hyblygrwydd a'r gwaith posibl ar ddatblygu un Grant Ymyrryd yn Gynnar, Atal a Chefnogi, rydyn ni'n gweithio gyda chyrff braenaru i ddatblygu ffyrdd newydd o lunio trefniadau dyfarnu grant ac mae'r gwaith hwnnw yn cynnwys datblygu fframwaith canlyniadau cyfunol. Mae'n gwneud synnwyr nawr felly i ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r gwaith hwnnw gan eu bod yn ffynhonnell werthfawr i'w defnyddio wrth ddatblygu'r fframwaith newydd. Yn ddibynnol ar unrhyw benderfyniadau a wneir ar integreiddio'r grant felly, byddwn yn ystyried y gwersi/sylwadau o'r ymgynghoriad wrth ystyried fframwaith canlyniadau priodol ar gyfer unrhyw system grantiau newydd.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cymryd amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae eich ymatebion yn werthfawr i ni ar gyfer y gwaith newydd sydd i'w ddatblygu.

.